

3 - Maen Achwyfan i Lanasa 2.7 milltir/4.3 km

Ar ôl ymweld â'r garreg ddirgel hon, ewch yn ôl at y ffordd a throi i'r dde. Pasiwch yr adeilad bychan ar eich ochr chwith at lwybr ceffyl ar yr ochr chwith sy'n pasio'r bwthyn (Fferm Pen Rallt). Dilynwch hwn nes bydd yn troi'n llwybr, gan basio coedwig breifat a hen siafftiau cloddio ar y dde. Wrth y gyffordd parhewch ymlaen drwy ddwy giât ac yna ar draws dau gae gyda chamfeydd. Ar ôl yr ail gamfa sy'n arwain i mewn i mylon y goedwig trowch i'r chwith, gan barhau am 300 metr at y giât. Ewch drwy'r giât a chymryd y llwybr gyda'r cyfeirbwyntiau i'r chwith. Dilynwch hwn (gwelwch yr olygfa o oleudy'r Parlwr Du) dros ddwy gamfa arall i fynd i mewn i'r gefeill- bentrefi Berthengam a Threlogan. Trowch i'r dde ar y ffordd (gan basio blwch ffôn) i'r Groesffordd a thafarn yr Afon Goch.

Parhewch i lawr y ffordd o'ch blaen am oddeutu 0.5 milltir/0.8km yna cerddech ar hyd y dreif, ar y chwith, tuag at y Ganolfan Achub Anifeiliaid Anwes ym Maes Gwyn. Cyn i chi gyrraedd yr adeiladau, ewch i'r dde dros gamfa. Dilynwch y llwybr* gyda'r gwrych ar eich ochr chwith drwy giât (gyda chamfa ar ei hochr) a mynd ar draws y cae i gerdded gyda'r gwrych sydd yn awr ar eich ochr dde. Ewch dros y gamfa ac yn syth ymlaen dros ddwy gamfa arall i fynd i mewn i ddol gyda choed parcdir a Phentref Llanasa o'ch blaen. Cerddwch i Eglwys y Seintiau Asaph a Chyndeyrn.

*Gall y llwybr troed yma fod yn eithriadol o fwdlyd. I osgoi hwn, ewch dros y gamfa ar y chwith, gan basio'r Ganolfan Achub Anifeiliaid ar eich ochr dde. Croeswch dros y gamfa a cherdded gyda'r gwrych ar eich ochr chwith i'r gamfa arall. Ewch dros hon a'r un nesaf i gerdded i fyny at y ffordd. Trowch i'r dde ar ei hyd a'i dilyn i bentref Llanasa.